# Prosiect 'O'r Pridd i'r Plât' Dolwyddelan

Mae pobl ifanc Dolwyddelan wedi bod yn brysur yn elwa o'r rhandiroedd yn Nolwyddelan drwy dyfu a helpu i gynnal y llysiau a'u troi yn bryd o fwyd i fwydo'r clwb cyfan. Mae pobl ifanc Dolwyddelan wedi mwynhau'r prosiect yn fawr iawn ac mae wedi'u helpu i ddysgu sgiliau bywyd a chymdeithasol heb iddynt hyd yn oed sylweddoli. Bu i'r bobl ifanc hefyd gwblhau eu hachrediad 'O'r Pridd i'r Plât' yn ystod y broses.

Bu i bobl ifanc y pentref goginio cawl cennin a thatws hyfryd, gyda phob cynhwysyn wedi'i dyfu yng nghefn y pafiliwn, dim ond ychydig droedfeddi i ffwrdd o ble cafodd ei goginio. Bu i aelodau'r clwb ei fwynhau yn fawr gan fwydo hyd at 18 o bobl ifanc.

Hoffem ni hefyd ddiolch i drigolyn lleol y pentref, Stewart, sy'n cynnal a chadw'r rhandir yn ystod yr wythnos gan ei gadw'n neis ac yn daclus ac yn cynnal y rhandiroedd i safon uchel iawn. Hebddo, ni fuasai'r bobl ifanc wedi gallu gwneud y prosiect hwn, mae'n glod i'r pentref, felly hoffem ddiolch yn fawr iawn iti Stewart.

Dyma rai lluniau o'r prosiect ...







Matt Mullender